

Arian Sasiwn Chwiorydd y Gogledd 2021

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru erbyn dydd Iau nesaf, Mawrth 18fed, os gwelwch yn dda. (A wnaiff y trysoryddion anfon yr arian i Mair yn ystod yr wythnos ddilynol, gydag unrhyw sicciau yn daladwy i Gofalaeth Bro Aled, plis?)



Bydd Llanw 2021 yn digwydd fel gŵyl rithiol ar-lein eleni.

Bydd dathliad yn cael ei ddarlledu'n fyw ar dudalen Facebook ac YouTube Llanw nos Lun, 5ed o Ebrill am 7.00 yr hwyr.

Yna, ar y tair noson ddilynol – 6ed, 7fed a'r 8fed o Ebrill, bydd Astudiaethau Beiblaidd ar ZOOM, eto am 7.00 yr hwyr yn cael eu harwain gan Gwilym Jeffs (Dathlu'r Atgyfodiad – o Farwolaeth i Fywyd), Alun Thomas (Dathlu'r Atgyfodiad – o Fywyd i Fywyd) a Gwilym Tudur (Dathlu'r Atgyfodiad – o Fywyd i Ogoniant).

Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal sesiynau ar-lein i blant ac ieuencid yn ystod yr wythnos hefyd – mwy o fanylion i ddilyn.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (24^{ain}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 14 Mawrth 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ddydd Sul nesaf bydd hi'n ddiwrnod y cyfrifiad. Bob deng mlynedd ers 1801 mae hyn wedi digwydd yng Nghymru (oni bai am 1941), ond ydych chi erioed wedi meddwl pam? I haneswyr, arbenigwyr ieithyddol a phobl sy'n ymddiddori mewn hel achau, mae cyfrifiadau'r gorffennol yn cynnwys peth wmbreth o ystadegau pwysig, ond nid cymdeithasau hanes oedd y tu ôl i'r peth! Wrth gwrs, tydi'r ymgais i gyfrif a hel gwybodaeth am y boblogaeth ddim yn un newydd. Mae yna enghreifftiau o bobl Dduw yn cael eu cyfrif yn yr Hen Destament, a'r esiampl Feiblaidd enwocaf yw'r cyfrifiad Rhufeinig olygodd bod Joseff a Mair wedi bod ym Methlehem pan anwyd Iesu. (Luc 2:1-7)

Rhestrwyd nifer o resymau gwahanol pam y dylai llywodraeth Prydain gynnal cyfrifiad ym 1801. Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau digon o fwyd i'r boblogaeth, ac mor bwysig oedd gwybod faint fyddai'n abl i ymladd mewn rhyfel. Ond un rheswm arall a nodwyd oedd y byddai cynnal cyfrifiad yn dangos bwriad y llywodraeth i hybu'r hyn sy'n dda i'r cyhoedd. Hynny yw, bod casglu gwybodaeth am bawb yn fodd i amlygu consyrn y rhai mewn awdurdod dros y boblogaeth ehangach. Dyna resymeg un llywodraeth ddynol, ond beth am Lywodraethwr daear a nef? Yn amlwg does dim angen i'r Duw hollalluog gynnal cyfrifiad bob deng mlynedd gan ei fod yn gwybod popeth ac yn gallu rhifo hyd yn oed sawl blewyn sydd ar ben pob un ohonom! Noda'r Beibl hefyd bod hyd yn oed y meddyliau a'r dyheadau hynny yr ydym am eu cuddio oddi wrth bawb arall yn hysbys i Dduw.

Ac felly, wrth i ni agosáu at y Pasg, meddyliwch pa mor rhyfeddol yw cariad Duw tuag atom. Er Ei fod yn gweld popeth am ein gweithredoedd, ein geiriau a'n meddyliau pechadurus, mae'n parhau i ddymuno daioni ar ein cyfer! Does neb ohonom yn haeddu hyn, ond trwy ei ras, mae Duw yn rhoi'n hael ac yn ein galw i brofi Ei ddaioni tragwyddol trwy roi ein ffydd yn ei Fab annwyl Iesu. Beth am i ni dreulio peth amser yr wythnos hon yn myfyrio ar eiriau cofiadwy Rhufeiniaid 5:6-8 cyn gweddio mawl a diolchgarwch i'r Duw sy'n llawn cariad.

Oherwydd y mae Crist eisoes, yn yr amser priodol, a ninnau'n ddiymadferth, wedi marw dros yr annuwiol. Go brin y bydd neb yn marw dros un cyfiawn. Efallai y ceir rhywun yn ddigon dewr i farw dros un da. Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul – 14^{eg}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Mawrth – 16^{eg}

- **Cwrs y Beibl** (ar ZOOM) am 7:30 yr hwyr – y sesiwn olaf. (Cliciwch ar y llun 'Cwrs y Beibl' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Sul – 21^{ain}

- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa ar y we**
Bydd y Gwasanaeth dan ofal arweinwyr Cwrs y Beibl am 10:30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Llun – 22^{ain}

- **Dewch at y Bwrdd** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr – Y sesiwn olaf mewn cyfres o astudiaethau ar Salm 23 o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0203 901 7895 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Sul – 28^{ain}

- **Gwasanaeth (Llanefydd) ar Zoom** am 10:00 yng nghwmni'r Parch. Aneurin Owen.
- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa FYW ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) am 8:00 yr hwyr. (Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mari Lloyd (Llanfair) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad Mari, Y Parchedig Ganon David Roberts. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Anfonwn ein cofion at Osian Evans (Henllan) dreuliodd noson yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar – gobeithio dy fod yn parhau i wella, Osian. Da clywed hefyd bod Dilys Vaughan (Saron) ac Eirlys Owen (Llanefydd) wedi gwella'n ddigon da i gael gadael yr ysbyty. Ar hyn o bryd, mae Dilys Vaughan (Saron) yn derbyn gofal pellach yng Nghartref Carr Holme ym Mhrestatyn, fel ag y mae Eirlys Owen (Llanefydd) yng Nghartref Dolwen, Dinbych. Diolchwn gyda chi a'ch teuluoedd am bob gofal trosoch a gweddiwn y byddwch ill dwy yn profi nerth a daioni Duw yn eich amgylchynu wrth i chi gryfhau ychydig bach mwy bob dydd. Cofiw'n am eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd hefyd a gweddiwn ar i chi a'ch teuluoedd brofi cariad a gofal Duw yn gwarchod drosoch.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mair Williams (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn y dyddiau nesaf!

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.